# CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

## Cofnodion cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 29ain MAI 2018.

**1 PRESENNOL:**

Cynghorwyr Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Ms Linda Jones, Mrs Carol McGregor,

Ms Rhian Roberts, Mr Raymond Evans, Mr Derek Hughes, Mr Cynrig Jones, Mr John Pritchard,

Mr Einion Parry Williams a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

**2 YMDDIHEURIAD:**

Cynghorwyr Mr Mike Jones & Mr Ian Owen.

Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts, Cynghorydd Sirol Mr Eric Jones..

**3 CROESO & DATGAN DIDDORDEB.**

3.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Yn arbennig croesawyd Cynghorwraig Ms Linda Jones yn nol i'r Cyngor ar ôl salwch hirdymor ac fe cyflwynwyd clwstwr o flodau iddi i ddathlu'r achlysur.

3.2 **Datgan Diddordeb Rhagfarnol.**

3.2.1 Ni oedd neb yn datgan diddordeb.m yn cael ei thrafod.

## 4 DERBYN COFNODION MISOL Y CYNGOR (27ain Ebrill 2018).

4.1 Derbyniwyd ac arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod mis Ebrill 2018 yn rhai cywir **(DH/CJ).**

## 5 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

**5.1 Stryd & Theras y Capel, Gaerwen –** dim ymateb oddiwrth PCSO Alison Hughes i sircrhau y bydd hi yn trefnu fod copi o adroddiad arolwg cyflymder ar hyd Stryd y Capel yn ogystal a threfnu arolwg cyflymder ar hyd yr A5 yn llaw y Clerc er mwyn rhannu gyda aelodau.

**5.2 Safle Gofeb Gaerwen** – adroddiad gan y Clerc fod y mater eisoes mewn llaw.

**Arwyddo.....**

**5.3** **Parc Gwyddoniaeth** – nad oedd ymateb ynghylch y goleuadau fflachar ger y mynedfa gan nid oedd son amdanynt yn y cais cynllunio gwreiddiol a hefyd fod uchder goleuadau llwybr troed o amgylch y safle yn uwch nag a grybwyllwyd yn y cais cynllunio sydd yn achosi pryder.

**5.4** **Safle Parcio & Rhannu** – dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn ebost gan y Cyngor Sir yn nodi cyffordd 7 yr A55 (Cefn Du) fel safle posib yn sgil cyfnod adeiladu Wylfa Newydd. Nodwyd y bwriad ac ei fod angen cyfarfod gyda'r Cadeirydd yn gyntaf cyn cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned.

**5.5** **Arwydd Cyflymder Radar –** adroddiad gan y Clerc fod pecyn dderbyniwyd oddiwrth Cwmni Elan City yn cynnig arwydd cyflymder (cost £1,800) mewn llaw.

**5.5** **Tyllau** – dywedodd y Clerc fod y mater yn nhwylo yr Adran Briffyrdd.

## 6 ETHOL SWYDDOGION & CYNRYCHIOLYDD Y CYNGOR 2018 – 2019.

**6.1** **Ail-etholwyd Mrs Barbara McKeaveney yn Gadeirydd yn unfrydol (DH/RR).**

**6.2** **Ail-etholwyd Ms Linda Jones yn Is-Gadeirydd yn unfrydol (BM/CJ).**

**6.3** **Yn sgil yr newidiadau sydd yn gwynebu'r Cyngor ac er mwyn adolygu rheolau ac hwyluso gosod priseb yn y dyfodol, argymellodd y Clerc y dylai sefydlu Pwyllgor Cyllid ac fe etholwyd Mrs Barbara McKeaveney, Mr Derek Hughes, Mr Cynrig Jones, Mr Ian Owen a Mr Einion P Williams i eistedd ar y pwyllgor yma.**

**6.4** **Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref & Chymunedol – etholwyd Mr Cynrig Jones, Mr Ian Owen a Mr Einion P Williams i gynrychioli'r Cyngor.**

**6.5** **Un Llais Cymru – etholwyd Mr Einion P Williams i gynrychioli'r Cyngor ar Gangen Mon o Un Llais Cymru.**

## 7 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

**7.1** **Mantolen Ariannol y Cyngor 2017/2018** – cafwyd esboniad llawn o holl wariant a derbyniadau y Cyngor am y flwyddyn ariannol a orffenwyd Mawrth 2018 ac fe dderbyniwyd ac arwyddwyd y fantolen yn unfrydol gyda diolch.

**7.2** **Adroddiad Taliadau & Derbyniadau Mis Ebrill 2018.**
Fe aeth y Clerc drwy taliadau a derbyniadau y Cyngor am mis Ebrill 2018 gan cynnwys cysoniad a datganiad y banc ac fe cytunwyd i wneud y taliadau yn unfrydol.

**7.2.1** **Diolchiadau am Rhoddion** – nodwyd cerdyn a llythyr o ddiolch wedi ei derbyn am rhoddion y Cyngor oddiwrth aelodau Cangen yr Urdd yn Gaerwen ac Plant Cyngor Ysgol Esceifiog.

**Arwyddo.....**

**7.3** **Taliadau Hawlio Costau Gan Aelodau y Cyngor** – yn sgil penderfyniad yr aelodau i beidio hawlio am costau yn unol a Adran 151 o Fesur Llywodraeth Leol 2011, roedd y Clerc wedi paratoi ymwadiad ar gyfer yr aelodau ac fe arwyddwyd pob aelod y ddogfen yma.

**7.4** **Rhestr Buddiannau Aelodau** – dywedodd y Clerc fod rhaid i'r Cyngor darparu gofrestr Buddiannau aelodau y Cyngor er mwyn cydymffurfio gyda Deddf Llywodraeth Leol Cymru 2013 ac fod rhaid i pob aelod datgelu rhestr y wahanol mudiadau roeddynt yn aelod ohono.

**7.5** **Archwilydd Mewnol –** cytunwyd aelodau gyda'r argymelliad o ofyn I Gwmni I G Jones & Co I fod yn archwilydd mewnol i'r Cyngor a gofyn i'r Clerc ddarparu lythyr iddynt yn cadarnhau'r penderfyniad yma.

## 8 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

**8.1** **Ymgynghoriad cyn gwneud Cais am Ganiatad Cynllunio Hysbysiad o Dan Erthygyl 2D. Roedd y Clerc wedi llungopio y ddogfen ar gyfer pob aelod er mwyn gwybodaeth ac fe benderfynwyd atal unrhyw ymateb nes derbyn y Cais Llawn. Yn y cyfamser roedd y Clerc am drefnu fod pob aelod yn derbyn copi o amodau y cais blaenorol.**

## 9 MATERION CAEAU CHWARAE.

9.1 Daeth Cyng Cynrig Jones sylw'r Cyngor fod gweddillion carthffosiaeth perchennog Gaerwen Uchaf wedi golchi o dan y ffens ac ar hyd mat ofer y Cae Chwarae ac roedd yn achosi pryder Iechyd a Diogelwch. **Y Clerc i anfon llythyr i berchennog y tŷ yn gofyn am eglurhad a sicrhau nad oedd hyn am gario ymlaen.**

9.2 **Ail-Wynebu Ofer Cae Chwarae Cae Mawr** – dangoswyd pryder fod yr amser wedi dod fod angen ystyried ail-wynebu ofer y Cae Chwarae – Y Clerc I gysylltu gyda GL Jones Playground a derbyn dyfnbris erbyn y cyfarfod nesaf.

9.3 **Gordyfiant Canghennau Cae Chwarae Cae Mawr** – Cyng Cynrig Jones i gysylltu gyda Mr O G Jones er mwyn trefnu dyfnbris erbyn y cyfarfod nesaf.

9.4 Penderfynwyd buddsoddi mewn peiriant codi sbwriel ('picker') er mwyn cynorthwyo Mr Dafydd Hughes.

## 10 MATERION LLWYBRAU.

10.1 Angen torri gordyfiant ar hyd Llwybr 16 – Cyng Cynrig Jones i ddod a hwn i sylw Mr O G Jones.

**Arwyddo.....**

## 11 MATERION PRIFFYRDD.

**11.1** **Arwydd 30mya Lon Llangaffo > Pentre Berw** - Angen atgoffa Adran Priffyrdd fod y Cyngor wedi gofyn iddynt ystyried symud arwydd 30mya yn agosach at Llangaffo.

**11.2** **Parcio Gyferbyn Cyffordd Llangaffo –** dangoswyd pryder fod perchnogion yn parcio cerbydau ar pafin gyferbyn cyffordd Llangaffo ac fod hyn yn beryg – penderfynwyd cadw golwg ar y sefyllfa ac i ddod a'r sefyllfa i sylw'r Heddlu os bu rhaid.

**11.3** **Rhybudd CSYM – Gorchymyn Gwahardd Traffig Trwodd Dros Dro – Lon Dwll, Pentre Berw 2018 –** nodwyd fod y Lon wedi cau ar 16 Mai 2018, am ddiwrnod er mwyn cynnal archwiliad diogelwch y pont.

## 12. ADRODDIADAU, YMGYNGHORIADAU & GOHEBIAETH.

**12.1** **Adroddiad Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref & Chymuned –** adroddiad oddiwrth Cynghorydd Einion Williams yn dilyn cyfarfodydd 26 Ebrill 2018 a 10 Mai 2018 ac fe nodwyd yr adroddiad gyda diolch.

**12.2** **Ymgynghori Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol (Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid & Cymysgedd Tai) –** roedd Cynghorydd Einion Williams wedi cynnig ymateb ar rhan y Cyngor Cymuned.

## 13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 26ain MEHEFIN 2018.

13.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am ddod ac fe clowyd y cyfarfod am 8:40yh.